

PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Cymunedau a gynhaliwyd yn SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR, RHUTHUN A THRWY GYNHADLEDD FIDEO ddydd Iau 19 Ionawr 2023 am 10.00am.

YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Michelle Blakeley-Walker, Karen Edwards (Is-gadeirydd), Pauline Edwards, James Elson, Jon Harland, Alan James, Delyth Jones, Merfyn Parry, Cheryl Williams a Huw Williams (Cadeirydd)

Aelod Arweiniol Iechyd a Gofal Cymdeithasol - Y Cynghorydd Elen Heaton
Aelod Arweiniol Datblygu Lleol a Chynllunio – Y Cynghorydd Win-Mullen James

Llofnodwyr eitem rhif 5 ar y Rhaglen – Cais am alw i mewn - Y Cynghorwyr Bobby Feeley, Huw Hilditch-Roberts a Mark Young.

Arsylwyr - Y Cynghorwyr Jeanette Chamberlain-Jones, Terry Mendies, Andrea Tomlin a David Gwyn Williams.

HEFYD YN BRESENNOL

Cyfarwyddwr Corfforaethol: Economi a'r Amgylchedd (TW), Cyfarwyddwr Corfforaethol: Llywodraethu a Busnes a Swyddog Monitro (GW), Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cymunedau (NS), Pennaeth Dros Dro Gwasanaethau Cymorth Cymunedol (DS), Pennaeth Dros Dro Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd (LJ), Swyddog Lles Anifeiliaid (JR), Cydlynnydd Craffu (RhE), Uwch Weinyddwr Pwyllgor (KJ) a Gweinyddwyr Pwyllgor (SJ, NH a RhTJ)

1 YMDDIHEURIADAU

Roedd y Cynghorydd Chris Evans, llofnodwr y cais am alw i mewn – eitem rhif 5 ar y rhaglen wedi cyflwyno ei ymddiheuriadau.

Gan fod y Cadeirydd yn mynychu'r cyfarfod o bell o dramor roedd wedi trefnu gyda'r Is-Gadeirydd ei bod yn cymryd y cyfrifoldebau cadeirio ar gyfer y cyfarfod.

2 DATGAN CYSYLLTIAD

Eglurodd y Swyddog Monitro fod gan aelodau'r Cabinet gysylltiad sy'n rhagfarnu yn eitem busnes rhif 5 ac felly na allent fod yn bresennol yn y cyfarfod oni bai eu bod wedi cael gwahoddiad gan y Pwyllgor. Roedd y Cynghorydd Elen Heaton, yr Aelod Arweiniol Iechyd a Gofal Cymdeithasol, wedi'i gwahodd gan y Pwyllgor i fynychu'r cyfarfod yn benodol ar gyfer y drafodaeth ar fusnes rhif 5 ac i ateb cwestiynau'r aelodau mewn perthynas â phenderfyniad y Cabinet.

Datganodd y Cyngorydd Alan James gysylltiad personol yn eitem rhif 6 ar y rhaglen - Cam-drin Cŵn gan mai ei wraig, y Cyngorydd Win Mullen James oedd yr Aelod Arweiniol ar gyfer yr adroddiad.

Datganodd y Cyngorydd Mark Young gysylltiad personol yn eitem rhif 5 ar y rhaglen - Adolygiad o Benderfyniad y Cabinet yn Ymwneud ag Argymhelliad y Grŵp Gosod Ffioedd Rhanbarthol gan ei fod wedi mynychu digwyddiadau lle'r oedd Cadeirydd a Phrif Weithredwr Fforwm Gofal Cymru wedi bod yn bresennol.

3 MATERION BRYN FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Nid oedd unrhyw faterion bryn wedi eu codi gyda Chadeirydd y cyfarfod cyn cychwyn busnes.

4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Cymunedau a gynhaliwyd ar 8 Rhagfyr 2022 i'w hystyried.

Materion cywirdeb - Dim

Materion yn Codi – Dim

***PENDERFYNWYD**, y dylid derbyn a chymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Rhagfyr 2022 fel cofnod gwir a chywir o'r gweithrediadau.*

5 ADOLYGIAD O BENDERFYNIAD Y CABINET MEWN PERTHYNAS AG ARGYMHELLIAD Y GRŴP GOSOD FFFIOEDD RHANBARTHOL

Croesawodd y Cadeirydd y swyddogion a'r Aelod Arweiniol, y Cyngorydd Elen Heaton i'r cyfarfod. Rhoddwyd gwybodaeth gefndir i'r aelodau a'r rhesymau dros y cais am alw i mewn. Rhoddodd y Cadeirydd ddisgrifiad manwl i'r aelodau o'r weithdrefn galw i mewn.

Atgoffwyd yr aelodau mai'r rheswm am yr alwad oedd fel y nodwyd yn yr adroddiad: "Gofyn i'r Cabinet ailystyried ei benderfyniad ar 13 Rhagfyr 2022 i dderbyn argymhellion y Grŵp Ffioedd o ystyried bod Gwynedd ac Ynys Môn yn argymhell talu llawer mwy i ddarparwyr gofal gyda golwg ar sicrhau cynladwyedd y sector gofal cymdeithasol yn eu hardaloedd yn y dyfodol."

Dywedodd y Swyddog Monitro wrth yr aelodau mai atodiad B i'r adroddiad oedd yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Cabinet ym mis Rhagfyr 2022. Ystyriwyd bod yr adroddiad hwnnw'n cynnwys gwybodaeth eithriedig o dan ddarpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 1972. Felly, roedd y wasg a'r cyhoedd wedi'u heithrio rhag ystyried yr adroddiad hwnnw yng nghyfarfod y Cabinet. Roedd yr eithriad wedi'i ganiatáu yn unol â pharagraff 14, rhan 4 o atodlen 12A o Ddeddf 1972 gan fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth yn ymwneud â materion ariannol neu fusnes unigolyn neu sefydliad, gan gynnwys materion yr awdurdod lleol.

Cynigiodd y Cyngorydd Alan James bod y cyfarfod yn cael ei symud i fusnes cyfrinachol Rhan II ar gyfer y drafodaeth ar weddill yr eitem fusnes ac eiliwyd y

cynnig gan y Cynghorydd Delyth Jones. Wrth ei gyflwyno i bleidlais roedd 6 aelod o blaid gwahardd y wasg a'r cyhoedd a 3 yn erbyn. Felly:

PENDERFYNWYD o dan Adran 100A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, y dylid gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes a ganlyn ar y sail ei fod yn ymwneud â datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14 Rhan 4 o Atodlen 12A. Deddf Llywodraeth Leol 1972.

GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

Rhoddodd y Cynghorydd Merfyn Parry y rhesymeg dros alw penderfyniad y Cabinet i mewn ar gyfer craffu manwl i'r aelodau.

Pwysleisiodd yr Aelod Arweiniol, y Cynghorydd Elen Heaton nad oedd cam nesaf y drefn, sef ymgynghori â darparwyr, wedi dechrau eto oherwydd bod penderfyniad y Cabinet yn cael ei alw i mewn i'w graffu. Pwysleisiodd hefyd, er bod y Cabinet eleni wedi cytuno i dderbyn holl argymhellion y Grŵp Gosod Ffioedd Rhanbarthol, mewn blynyddoedd blaenorol ac o dan weinyddiaeth wahanol roedd y penderfyniad blynyddol hwn wedi'i wneud trwy broses Penderfyniad Dirprwyedig yr Aelodau Arweiniol. Pwysleisiodd mai'r data a ddefnyddiwyd gan y Grŵp Ffioedd wrth lunio'r argymhellion oedd y wybodaeth ddiweddaraf a ddarparwyd i'r Grŵp gan y darparwyr hynny a oedd yn fodlon rhoi data iddynt. Yn ogystal â defnyddio'r data oedd ar gael roedd y Grŵp Ffioedd wedi dilyn methodoleg gadarn er mwyn cyfrifo'r lefelau ffioedd a argymhellir.

Caniataodd y Cadeirydd i'r holl lofnodwyr a oedd yn bresennol yn y cyfarfod gyflwyno eu rhesymau dros alw'r penderfyniad a rhoddwyd amser i'r swyddogion a'r Aelod Arweiniol i ymateb hefyd. Yn ystod y drafodaeth:

- pwysleisiodd swyddogion yr angen i ymrwymo i gynllun sydd fel awdurdod yn fforddiadwy ac y gellid ei gynnal.
- eglurwyd mai rôl y Grŵp Ffioedd oedd sefydlu gwir gost gofal yng Ngogledd Cymru ar sail y data sydd ar gael iddynt. Fodd bynnag, wrth lunio'r lefelau ffioedd a argymhellir ar gyfer 2023/24 roedd y Grŵp Ffioedd hefyd wedi defnyddio methodoleg gadarn a oedd yn ystyried goblygiadau talu'r Cyflog Byw Gwirioneddol i staff yn ogystal â'r gyfradd chwyddiant uchel a oedd yn bodoli ar yr adeg pan oedd y lefelau ffioedd arfaethedig yn cael eu cyfrifo.
- amlinellwyd y gwahanol ddulliau a ddefnyddiwyd i ymgysylltu â darparwyr gofal i gasglu data ar gostau gwirioneddol darparu gofal. Fodd bynnag, er gwaethaf y gwahanol ddewisiadau sydd ar gael i ddarparwyr i'w galluogi i gyflwyno'r wybodaeth ofynnol, roedd nifer ohonynt yn amharod i ymgysylltu â'r broses.
- pwysleisiwyd bod drws yr Awdurdod bob amser yn agored i ddarparwyr ddod i drafod unrhyw rwystrau neu bwysau y daethant ar eu traws wrth darparu gofal a gafodd ei gaffael gan yr Awdurdod i drigolion Sir Ddinbych. Ni fyddai'r Awdurdod yn caniatáu i unrhyw ddarparwr ddioddef pe bai'n ymgysylltu â'r Cyngor ac yn gallu cyfiawnhau pam fod angen codi ffioedd cyn belled ag y gallent ddangos defnydd effeithiol ac effeithlon o arian cyhoeddus.

- roedd gan bob ardal awdurdod lleol ei phroffil demograffig unigryw ei hun felly roedd cyflenwad a galw yn amrywio rhwng gwahanol ardaloedd daearyddol.
- cadarnhawyd bod pob un o'r chwe awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru ynghyd â'r Bwrdd Iechyd yn aelodau o'r Grŵp Ffioedd Rhanbarthol ac wedi cyfrannu at y gwaith o gyfrifo'r lefelau ffioedd a argymhellir. Roedd hyn yn cynnwys Gwynedd ac Ynys Môn. Y bwriad nawr oedd ymgynghori â darparwyr gofal ar y lefelau ffioedd hyn fel rhan o'r broses gosod ffioedd lleol ar gyfer 2023/24.
- roedd y ffioedd a argymhellwyd yn ffigwr dangosol a oedd o gymorth gyda'r broses o osod y gyllideb. Fodd bynnag, roedd y ffioedd a delir i ddarparwyr gofal ar gyfer pob unigolyn yn amrywio, gan fod hyn yn seiliedig ar asesiad o anghenion pob unigolyn. Pwysleisiwyd bod Gofal Cymdeithasol yn wasanaeth a arweinir gan alw.
- cadarnhawyd bod gan y Cyngor berthynas waith da gyda'i ddarparwyr gofal a bod y cynnydd arfaethedig ar gyfer 2023/24 yn un o'r rhai mwyaf hael o ran gwerth ariannol ers nifer o flynyddoedd.

Roedd yr aelodau'n falch o nodi bod y chwe awdurdod lleol a'r Bwrdd Iechyd wedi cydweithio a chyfathrebu â'i gilydd mewn perthynas â'r mater hwn. Fe wnaethant ofyn i bob ymdrech gael ei wneud o hyd i annog darparwyr gofal i ymgysylltu'n rheolaidd ac yn effeithiol ag awdurdodau lleol a'r Grŵp Ffioedd Rhanbarthol yn y dyfodol, er mwyn i'r Grŵp gael y data diweddaraf perthnasol gan y byddai hyn yn helpu i osod lefelau ffioedd realistig a fforddiadwy wrth symud ymlaen.

Nododd yr aelodau hefyd yr angen i fodloni'r angen i bob unigolyn wneud yr hyn sydd orau i bob unigolyn.

Cafodd y ddwy ochr i'r drafodaeth gyfle i grynhoi'r rhesymau a'r rhesymeg dros eu safbwyntiau. Ar ddiwedd y crynodeb cynigiodd y Cyngorydd Merfyn Parry y canlynol:

“Bod y Pwyllgor yn gofyn i'r Cabinet ailystyried eu penderfyniad a wnaed ar 13 Rhagfyr 2022 ac wrth wneud hynny y dylid ymgynghori ymhellach â darparwyr a Fforwm Gofal Cymru fel corff cynrychioliadol i sicrhau bod y ffioedd yn briodol ac yn gynaliadwy, a hefyd i ddefnyddio'r data newydd cyfredol i ail fynd i'r afael â'r ffigyrau.”

Cyn gofyn i'r Pwyllgor bleidleisio ar y cynnig uchod gofynnodd y Cadeirydd i'r Swyddog Monitro egluro i aelodau'r Pwyllgor beth oedd eu dewisiadau mewn perthynas â'r penderfyniad a oedd wedi'i alw i mewn. Eglurodd y Swyddog Monitro y gallai'r Pwyllgor, wrth bleidleisio ar yr argymhelliad arfaethedig, ofyn i'r Cabinet:

- ailystyried ei benderfyniad gwreiddiol ar sail y seiliau a nodwyd
- cadarnhau'r penderfyniad gwreiddiol fel y'i gwnaed gan y Cabinet; neu
- argymhell i'r Cabinet y dylid cadarnhau ei benderfyniad gwreiddiol ond wrth gadarnhau'r penderfyniad y dylai'r Cabinet archwilio ymhellach yr agweddau a amlinellwyd yn yr argymhelliad a gyflwynwyd.

Yna cafwyd pleidlais ar yr argymhelliad a gafodd ei gynnig gan y Cynghorydd Merfyn Parry, a'i eilio gan y Cynghorydd Pauline Edwards. Pleidleisiodd y Pwyllgor fel a ganlyn:

Pleidleisiodd 4 o aelodau o blaid yr argymhelliad
Pleidleisiodd 5 o aelodau yn erbyn yr argymhelliad
Ataliodd 1 aelod

O ganlyniad, cafodd yr argymhelliad ei golli.

Yna gofynnodd y Swyddog Monitro i'r Pwyllgor egluro a oedd yn dymuno argymhell i'r Cabinet ei fod yn archwilio unrhyw rai o'r agweddau a amlinellwyd yn yr argymhelliad arfaethedig wrth roi ei benderfyniad gwreiddiol ar waith. Dywedodd aelodau'r Pwyllgor na fyddent yn gofyn i'r Cabinet ddilyn y trywydd hwnnw.

Felly, ar ddiwedd trafodaeth fanwl, fe wnaeth y Pwyllgor drwy bleidlais fwyafrifol:

Penderfynu: - peidio â chyfeirio penderfyniad 'Argymhelliad y Grŵp Gosod Ffioedd Rhanbarthol', a gymerwyd gan y Cabinet ar 13 Rhagfyr 2022, yn ôl i'r Cabinet i'w ystyried ymhellach.

Cadarnhaodd y Swyddog Monitro, ar sail penderfyniad y Pwyllgor, y byddai'r Cabinet yn awr mewn sefyllfa i symud ymlaen i roi ei benderfyniad gwreiddiol ar waith.

Ar y pwynt hwn cymerodd y pwyllgor egwyl.

RHAN I

6 CAM-DRIN CŴN

Eglurodd y Cydlynnydd Craffu i'r aelodau gyda chytundeb yr Aelod Arweiniol, y Cynghorydd Win Mullen-James a'r Cadeirydd, y cytunwyd i ohirio cyflwyno'r adroddiad hwn tan gyfarfod diweddarach.

7 RHAGLEN WAITH CRAFFU

Cyflwynodd y Cydlynnydd Craffu adroddiad (a ddisbarthwyd ymlaen llaw) yn gofyn i'r Aelodau adolygu rhaglen waith y Pwyllgor ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ar faterion perthnasol.

Roedd dwy eitem wedi'u rhestru ar gyfer cyfarfod nesaf y Pwyllgor Craffu Cymunedau ar 9 Mawrth 2023:

- Model Gwastraff ac Ailgylchu Newydd.
- Ail gartrefi a Thai Gosod byrdymor.

Cytunodd yr Aelodau i gynnwys yr adroddiad gohiriedig ar gam-drin cŵn ar y rhaglen waith ar gyfer cyfarfod mis Mawrth.

Roedd cyfarfod nesaf y Grŵp Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Craffu i'w gynnal yn dilyn y cyfarfod ar 19 Ionawr 2023.

Roedd Atodiad 2 yn cynnwys copi o ffurflen Cynnig yr Aelodau.

Atodiad 3 i'r adroddiad oedd gwaith i'r dyfodol y Cabinet.

Atodiad 4 – hysbyswyd yr aelodau o'r argymhellion a wnaed yn y cyfarfod Craffu blaenorol.

Amlygodd y Cydlynnydd Craffu'r eitem safonol ar y rhaglen, sef - Adborth gan Gynrychiolwyr Pwyllgorau. Dywedodd wrth yr aelodau y byddai gofyn yn y dyfodol agos i bob pwyllgor craffu benodi cynrychiolwyr i'r grwpiau her gwasanaeth. Cyfarfu'r grwpiau hyn yn flynyddol i adolygu perfformiad a chynnydd y gwasanaethau wrth gyflawni eu hamcanion. Yn dilyn y cyfarfodydd byddai disgwyl i gynrychiolwyr roi adborth yng nghyfarfod nesaf y pwyllgor. Byddai'r aelodau'n cael rhagor o wybodaeth drwy e-bost.

Awgrymodd y Cynghorydd Merfyn Parry adroddiad dilynol ymhen chwe mis ar y cynnydd a wnaed ar y Grŵp Gosod Ffioedd Rhanbarthol. Awgrymodd y Cydlynnydd Craffu i'r aelod lenwi'r Ffurflen Cynnig Aelodau, a fyddai'n cael ei chyflwyno i'r Grŵp Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion i'w chynnwys ar raglen waith y pwyllgor.

Penderfynodd y Pwyllgor: y dylid cadarnhau rhaglen gwaith i'r dyfodol y Pwyllgor, fel y manylir yn Atodiad 1 yr adroddiad.

8 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR PWYLLGOR

Nid oedd unrhyw adborth.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.40.